# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru
# Rhagfyr 2020

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ymgyngoriadau a chynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein calendr i ddod.

## Ymateb i'r Coronafeirws (COVID-19)

Rydym wedi parhau i addasu ein gweithrediadau arferol i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi ymateb y llywodraeth i bandemig y Coronafeirws, ynghyd â darparu'r wybodaeth angenrheidiol lle mae ei hangen fwyaf. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r blog Digidol a Data i ddarparu gwybodaeth am ein dull gweithredu.

Rydym yn parhau i gyhoeddi amrywiaeth ehangach o setiau data a datganiadau rheolaidd newydd er mwyn hysbysu'r cyhoedd yn ystod y pandemig. Mae'r rhain i gyd ar gael ar ein tudalen Ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â Coronafeirws (COVID-19). Ers mis Medi, rydym hefyd wedi dechrau llunio setiau data a datganiadau newydd neu fwy rheolaidd ar y canlynol:

- Gwelyau dyddiol y GIG, derbyniadau a derbyniadau i'r ysbyty tablau StatsCymru
- Disgyblion sy'n bresennol mewn ysgolion a gynhelir
- Camau newydd y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF)
- Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan

Gwnaethom hefyd gyhoeddi datganiad untro ar gyfansoddiad aelwydydd y rhai ar y rhestr cleifion a warchodir yn seiliedig ar ddata cysylltiedig o Fanc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL).

## Yr economi a'r farchnad lafur

Rydym wedi parhau i ddiweddaru ystadegau economaidd allweddol bob mis, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data er mwyn rhoi'r darlun diweddaraf o'r effaith y mae'r coronafeirws yn ei chael ar y farchnad lafur yng Nghymru. Rydym hefyd yn cyhoeddi tudalen bennawd bob mis ar y cynllun cadw swyddi coronafeirws a'r cynllun cymorth incwm hunangyflogaeth fel y cyhoeddir gan CThEM.

Mae nifer o'n datganiadau diweddaraf yn dechrau dangos yr effaith y mae pandemig y coronafeirws yn ei chael ar yr economi yng Nghymru, fel [nwyddau a gaiff eu hallforio o Gymru], [dangosyddion allbynnau tymor byr] a [chynnyrch domestig gros rhanbarthol (GDP)].

Rydym wedi cyhoeddi nifer o'n datganiadau arferol eraill, fel yr amcangyfrifon diweddaraf o'r farchnad lafur gan yr [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth], amcangyfrifon 2020 gan yr [Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion] ac amcangyfrifon 2019 ar gyfer y [Gofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth.]

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.economi@llyw.cymru

## Addysg

### Ysgolion

Yn ystod mis Medi, gwnaethom weithio gydag awdurdodau lleol a chydweithwyr yn nhîm Hwb Llywodraeth Cymru i ddechrau casglu data lefel disgyblion newydd ar ddisgyblion sy'n bresennol mewn ysgolion. Mae'r broses hon o gasglu gwybodaeth reoli yn unigryw am ei bod yn cymryd data wythnosol yn uniongyrchol o systemau rheoli gwybodaeth ysgolion heb fod angen i'r ysgolion na'r awdurdodau lleol wneud unrhyw beth. Cyhoeddwyd canlyniadau cyntaf y data a gasglwyd ar [ddisgyblion sy'n bresennol mewn ysgolion a gynhelir] ar 21 Hydref ac mae'n cynnig dangosydd diweddar a dibynadwy o'r graddau y mae'r pandemig presennol wedi effeithio ar bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion.

Ar 6 Hydref, gwnaethom gyhoeddi datganiad ystadegol ar [ganlyniadau arholiadau dros dro] ar gyfer 2019/20 yn seiliedig ar y radd orau o blith y radd a aseswyd gan y ganolfan neu'r radd a fodelwyd gan Cymwysterau Cymru. Am y tro cyntaf erioed, mae'r datganiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r canlyniadau hyn yn ôl gradd TGAU a Safon Uwch unigol yn ogystal ag yn ôl cefndir ethnig. Yn draddodiadol, nid oedd y data hyn ar gael tan fis Rhagfyr.

Ar 21 Hydref, gwnaethom gyhoeddi'r [gwaharddiadau parhaol a thymor penodol o ysgolion]. Mae'r data yn y datganiad hwn yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2018/19 ac felly nid yw'r pandemig presennol yn effeithio arnynt.

Ar ôl cau'r ysgolion yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf, rydym wedi casglu'r data angenrheidiol er mwyn cyhoeddi'r datganiadau blynyddol canlynol rhwng mis Medi a mis Rhagfyr:

Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion

Cyflawniad a'r Hawl i gael prydau ysgol am ddim (CA1-3 yn unig. Caiff data CA4 eu cyhoeddi yn y canlyniadau arholiadau dros dro uchod).

Absenoldeb o ysgolion cynradd

Absenoldeb o ysgolion uwchradd

### Addysg drawsbynciol ac ôl-16

Rydym yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth reoli fisol ar brentisiaid a gafodd eu rhoi ar ffyrlo neu a gafodd eu diswyddo yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) a estynnwyd hefyd i gynnwys ystadegau ar awdurdod lleol cartref y prentisiaid. Er na chynhaliwyd yr un lefel o weithgarwch sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol ar y data hyn, mae'n cynnig awgrym amserol o'r graddau yr effeithiwyd ar brentisiaid gan y pandemig.

Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi ein pennawd ystadegol ar bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'r diweddariad hwn yn cynnwys data ar gyfer ein Harolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sy'n fesur mwy amserol ond llai cadarn o bobl ifanc NEET ar ddiwedd y flwyddyn a ddaeth i ben yn chwarter 2 2019. Mae rhagor o wybodaeth am ein mesurau NEET ar gael yn ein canllaw ar ddeall y ffynonellau gwahanol o ystadegau ar bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru.

Yn ddiweddar, gwnaethom hefyd gyhoeddi ein diweddariad chwarterol dros dro diweddaraf ar raglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd, a oedd yn ymdrin â chwarter 3 blwyddyn academaidd 2019/20.

Er mwyn rhoi adborth neu ar gyfer unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch ystadegau.addysgol16@llyw.cymru.

### Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi ein bwletinau blynyddol ar Lwfansau Cynhaliaeth Addysg a Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw adborth sydd gennych ar y bwletinau presennol, neu'r hyn yr hoffech ei weld yn y dyfodol. Cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i'r blwch post ar gyfer Ystadegau ar Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr.

## Tai

Cafodd amcangyfrifon o'r stoc anheddau, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020, eu cyhoeddi ar 17 Medi 2020. Mae'r datganiad hwn yn darparu dadansoddiad deiliadaeth o anheddau ledled Cymru. Oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19), rhoddwyd amcangyfrifon o ddwy o'r setiau data sy'n bwydo i mewn i'r amcangyfrifon o'r stoc anheddau. Mae hyn yn golygu bod ansicrwydd ychwanegol ynghylch yr amcangyfrifon, fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2020.

Cafodd y datganiad statudol blynyddol ar ddigartrefedd (Digartrefedd: mis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020) ei gyhoeddi ar 5 Tachwedd 2020. Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar gartrefi sy'n gwneud cais i awdurdodau lleol am gymorth tai, canlyniadau asesiadau awdurdodau lleol ac aelwydydd mewn llety dros dro ar 31 Mawrth 2020. Oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19), ni chafodd data yn ymwneud ag oedran ac ethnigrwydd eu casglu, felly nid yw'r dadansoddiadau hyn wedi'u cyhoeddi ar gyfer blwyddyn 2019-20.

Cafodd y pennawd misol cyntaf ar ddigartrefedd a chysgu allan ei gyhoeddi hefyd ar 5 Tachwedd 2020 (Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan; Awst 2020). Mae'r pennawd hwn yn cyflwyno gwybodaeth reoli ar ddarpariaeth llety brys a hirdymor i bobl 16+ oed sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac sydd wedi gwneud cais am gymorth tai gan awdurdod lleol. Nid yw'r data a gyflwynir yn y pennawd hwn wedi bod drwy'r un broses sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol a dylid eu trin fel data dros dro. Ar hyn o bryd, mae'r data ond yn cael eu cyhoeddi ar lefel Cymru. Mae'r casgliad misol yn disodli'r casgliad gwybodaeth wythnosol yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19).

### Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 (ACTC)

Rydym yn argymell y dylech gysylltu â ni drwy'r blwch post ar hyn o bryd os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau gan fod y staff sydd ar gael yn amrywio.

## Iechyd

### Cyhoeddiadau

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar y wefan ystadegau ac ymchwil.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch ystadegau.iechyd@llyw.cymru

### Gweithlu practis cyffredinol

Cyhoeddwyd data newydd ar y gweithlu practis cyffredinol ar 29 Hydref, gan ddangos nifer y meddygon teulu a staff practis ehangach a gyflogwyd ar 30 Mehefin 2020. Mae cydweithwyr polisi wedi defnyddio'r data hyn i gynllunio'r gweithlu drwy gydol pandemig COVID-19. Bwriedir cyhoeddi'r diweddariad chwarterol nesaf ym mis Ionawr 2021.

### Iechyd Plant

Mae'r diweddariadau chwarterol ar gyfer data i gefnogi Rhaglen Plant Iach Cymru wedi'u gohirio am fod yr adnoddau wedi cael eu hailneilltuo yn ystod pandemig COVID-19. Cyhoeddwyd data ar fwydo ar y fron ar gyfer mis Ebrill i fis Mehefin 2020 ar 26 Tachwedd

### Gweithgarwch y GIG

Ailddechreuwyd cyhoeddi data perfformiad misol y GIG ar 19 Tachwedd. Roedd yn cynnwys data perfformiad newyddar gyfer gwasanaethau gofal heb eu trefnu ar gyfer pob mis rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2020, gan gynnwys y misoedd hynny, a data perfformiad newydd ar gyfer gwasanaethau gofal wedi'u trefnu ar gyfer pob mis rhwng mis Chwefror a mis Medi 2020, gan gynnwys y misoedd hynny.

Mae'r datganiad yn nodi rhai newidiadau sydd ar y gorwel ar gyfer ystadegau perfformiad y GIG, y byddem yn croesawu adborth arnynt.

### Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n prosesu data'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth ar lefel yr unigolyn gan awdurdodau lleol ar gyfer 2019-

20, ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal o ran y gofynion casglu data ar gyfer blwyddyn adrodd 2020-21. Sefydlwyd grwpiau hefyd i adolygu Cyfrifiadau Plant ac i ddatblygu Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth i Gymru.

## Gwyddor Data ac Ymchwil Data Gweinyddol

Cyhoeddodd yr uned gwyddor data ei blog cyntaf yn disgrifio'r gwaith y mae wedi bod yn ei wneud a nodau'r uned.

Mae ymchwil data gweinyddol - Cymru wedi cynhyrchu nifer o gyhoeddiadau yn ystod y pandemig. Yn fwyaf diweddar, bu'n ystyried cyfansoddiad aelwydydd y rhai ar y rhestr cleifion a warchodir.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch DataScienceUnit@llyw.cymru neu ADRUCymru@gov.wales

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

### Arolwg ffôn misol 2020

Mae canlyniadau mis Awst a mis Medi bellach yn cael eu cyhoeddi ar ffurf datganiadau byrion ac mae'r canlyniadau yn cael eu cynnwys yn y dangosydd Canlyniadau misol. Rhain fydd y canlyniadau olaf yn seiliedig ar y cylch casglu misol. Ar ôl hynny, byddwn yn newid i drefn adrodd chwarterol, gyda chanlyniadau mis Hydref i fis Rhagfyr yn cael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2021.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys yr arolwg chwarterol, cysylltwch â Heulwen.hudson@llyw.cymru.

### Adrodd mwy trylwyr ar ganlyniadau 2019-20

Bydd adroddiad ar Wirfoddoli yn defnyddio data arolwg 2019-20 yn cael ei gyhoeddi ar 10 Rhagfyr. Caiff adroddiad ar Unigrwydd ei gyhoeddi yr wythnos ganlynol ac rydym yn bwriadu cyhoeddi allbynnau pellach yn trafod Gofal, Gwybodaeth iechyd, Sgiliau rhyngrwyd a Gwasanaethau sector cyhoeddus ar-lein yn y flwyddyn newydd. Mae'r tîm yn parhau i weithio ar gyfuno data o fisoedd lluosog a lle y bo'n bosibl â setiau data 2019-20 a 2018-19, a fydd yn rhoi dadansoddiad mwy trylwyr.

## Cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Ni fyddwn yn diweddaru unrhyw ddangosyddion MALIC yn 2020 oherwydd effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19). Mae hyn wedi effeithio ar gapasiti o fewn Llywodraeth Cymru a chyflenwyr data trydydd parti, a pherthnasedd cyhoeddi data dangosol newydd a ddiweddarwyd hyd at ddyddiadau cyfeirio cyn-2020. Byddwn yn adolygu data dangosol MALIC yn 2021 ac yn penderfynu pa ddata, os o gwbl, y gellir eu diweddaru erbyn diwedd y flwyddyn.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i gyhoeddi allbynnau dilynol ar gyfer MALIC 2019 ac ar 18 Tachwedd gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad o nodweddion gwarchodedig yn ôl amddifadedd ardaloedd. Cyfeiriwch at “MALIC 2019: rhestr o allbynnau” ar gyfer rhestr lawn o gyhoeddiadau MALIC yn 2019, gan gynnwys yr hyn sydd i ddod.

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru i danysgrifio. Gallwn hefyd ddarparu sesiynau gwybodaeth ar MALIC 2019. Os hoffech drefnu hyn ar gyfer eich sefydliad neu rwydwaith, cysylltwch â ni i drafod.

## Masnach

Mae ail flwyddyn Arolwg Masnach Cymru ar y gweill. Nod yr arolwg yw gwella dealltwriaeth o lif masnach i mewn ac allan o fusnesau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau sy'n symud o fewn y DU yn ogystal ag yn rhyngwladol.

## Trafnidiaeth

Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi damweiniau ffyrdd wedi’u cofnodi gan yr heddlu ar gyfer 2019. Cafodd y datganiad hwn ei leihau mewn ymateb i'r pandemig. Gwnaethom gyhoeddi ein datganiad cludiant awyr 2019 ar 14 Hydref ac amcangyfrifon traffig ffyrdd 2019 ar 28 Hydref.

## Y Gymraeg

Yn ddiweddar, cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg o grwpiau cymunedol Cymraeg eu hiaith yng Nghymru gyda'r nod o ddeall effaith COVID-19 ar eu gweithgareddau. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ddydd Iau 10 Rhagfyr.

## Poblogaeth a demograffeg

Cyhoeddir diweddariad demograffeg chwarterol ar wahân sy'n cynnwys popeth sy'n ymwneud â'r boblogaeth.

## Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

### Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bost: desg.ystadegau@llyw.cymru

Ffôn: 03000 255050

### Pwnc-benodol

Cysylltiadau ar gyfer ystadegau

**Twitter**

YstadegauCymru

**Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru**

Newyddion a hysbysiadau

**Ymholiadau gweinyddol**

E-bost: gweinydduggd@llyw.cymru